10 cyngor
i osgoi cynlluniau twyll

Bob blwyddyn mae miliynau o bunnoedd yn cael eu colli i wahanol gynlluniau twyll neu 'sgam'. Mae Pobl hŷn yn cael eu targedu dro ar ôl tro gan bobl nad ydynt yn meddwl ddwywaith am gymryd eu harian, heb roi fawr ddim neu ddim o gwbl yn ôl.

Dyma rai pethau i'w cofio os ydych chi'n cael llythyrau, galwadau ffôn neu negeseuon e-bost sy'n gofyn am arian neu wybodaeth bersonol – **fe allent fod yn gynlluniau twyll**:

- os yw'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, yn gyffredinol mae'r argraff cyntaf yn gywir
- os nad ydych chi wedi cystadlu mewn cystadleuaeth nid oes modd i chi ennill gwobr ariannol mawr
- nid yw pobl a chwmnïau dilys yn gofyn am arian ymlaen llaw
- os ydych chi'n ansicr, neu os nad yw ateb yn teimlo'n iawn – taflwch y llythyr, rhowch y ffôn yn ôl yn ei grud, peidiwch ag ateb negeseuon testun neu e-bost
- ni wnaiff unrhyw beth gwael ddigwydd os nad ydych chi'n anfon arian at rhywun sy'n honni bod yn seicig. Mae nhw'n anfon yr un llythyr at filoedd o bobl yn dweud yr un peth
- diben llythyrau/negeseuon e-bost sy'n cynnig swm mawr o arian i chi o wlad dramor yw eich annog i anfon eich manylion personol a'ch manylion banc atynt er mwyn iddynt fedru dwyn o'ch cyfrif banc
- siaradwch gyda ffrind, perthynas, y gangen Age Cymru leol neu Cyswllt Defnyddwyr os oes gennych chi bryderon am unrhyw ohebiaeth a gawsoch
- os ydych chi'n teimlo dan bwysau i brynu rhywbeth dros y ffôn mae'n dderbyniol dweud 'Na' a rhoi'r ffôn i lawr
- gall ymateb i un llythyr/neges e-bost 'sgam' o'r fath arwain at anfon hyd at gant o eitemau tebyg atoch bob dydd
- mae modd lleihau nifer y cynigion 'sgam' sy'n eich cyrraedd chi – cofrestrwch gyda'r 'Telephone Preference Service' a'r 'Mailing Preference Service' (manylion cyswllt yn y llyfr ffôn).

Cefnogwyd gan:

WESTERN POWER DISTRIBUTION

Age Cymru
Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune, Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ

Llinell Gymorth: 0800 169 65 65 **E-bost:** enquiries@agecymru.org.uk
Gwefan: www.agecymru.org.uk

Rhif Elusen 1128436